Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Talu am wasanaethau gofal a chymorth (gofal cymdeithasol i oedolion) - Canllaw i etholwyr

Ionawr 2022 (diweddariad Chwefror 2025)



ymchwil.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Ymchwil y Senedd**
**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6321**
E-bost: **Rebekah.James@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Gwefan: **ymchwil.senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Talu am wasanaethau gofal a chymorth (gofal cymdeithasol i oedolion)
## - Canllaw i etholwyr

Ionawr 2022 (diweddariad Chwefror 2025)

**Awdur:**
Rebekah James

# Cynnwys

1. Y cefndir .......... 1

Asesiadau Ariannol .......... 1

2. Gofal preswyl .......... 3

Cyfalaf .......... 3

Pan nad yw gwerth eiddo'n cael ei ystyried .......... 4

Incwm .......... 4

Isafswm Incwm .......... 4

Ffioedd ychwanegol .......... 5

Taliadau gohiriedig .......... 5

3. Gofal Iechyd Parhaus y GIG .......... 6

4. Gofal nyrsio a ariennir gan y GIG .......... 7

5. Gofal amhreswyl .......... 8

Uchafswm ffi .......... 8

Cyfalaf .......... 8

Incwm .......... 9

Isafswm Incwm .......... 9

6. Adolygu penderfyniadau'r asesiad ........................................................ 10

7. Ffynonellau eraill o gymorth a chefnogaeth ...................................... 11

# 1. Y cefndir

Gall fod yn ddryslyd gwybod a oes angen i chi dalu am wasanaethau gofal cymdeithasol a faint y mae angen i chi ei dalu. Mae'r canllaw hwn yn mynd â chi drwy'r broses sy'n cael ei defnyddio i benderfynu pryd a faint y bydd angen i chi ei dalu am wasanaethau gofal cymdeithasol. Mae hefyd yn cyfeirio at ffynonellau defnyddiol eraill o gymorth a chefnogaeth.

Mae'r wybodaeth a ganlyn wedi'i seilio ar y ddeddfwriaeth berthnasol (***Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014***) a **Chod Ymarfer** Llywodraeth Cymru ar godi ffioedd ac asesiadau ariannol y **mae'n rhaid** i awdurdodau lleol yn ei ddilyn. Mae'r Cod Ymarfer yn cynnwys rhagor o wybodaeth fanwl am amgylchiadau penodol.

## Asesiadau Ariannol

Pan fydd awdurdod lleol yn penderfynu codi tâl am ddarparu neu drefnu gofal a chymorth, rhaid iddo gynnal **asesiad ariannol** o'r person sy'n cael y gofal a'r cymorth.

Fel rhan o'r asesiad ariannol, mae'r awdurdod lleol yn edrych ar eich **cynilion/ cyfalaf** (e.e. eiddo) a'ch **incwm** (e.e. pensiynau) i gyfrifo faint y gallwch fforddio'n rhesymol ei dalu tuag at eich gofal a'ch cymorth. Bydd yr asesiad ariannol hefyd yn pennu a ydych yn gymwys i gael cymorth ariannol gan yr awdurdod lleol tuag at eich gofal a'ch cymorth, a faint y dylech ei gael.

Bydd angen asesiad ariannol p'un a fydd eich **asesiad o anghenion gofal** yn dangos mai gofal preswyl (lleoliad cartref gofal) neu ofal a chymorth amhreswyl yw'r dewis gorau i chi.

Bydd yr asesiad ariannol yn ystyried sefyllfa ariannol y person sy'n cael ei asesu yn unig. Os oes gennych gynilion/cyfalaf neu incwm fel rhan o gwpl, tybir yn gyffredinol fod gan y ddau berson gyfran gyfartal.

Gall awdurdod lleol asesu cynilion/cyfalaf neu incwm cwpl ond dim ond pan fydd hynny'n fwy manteisiol o safbwynt ariannol i'r person sy'n cael ei asesu. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn Adran 5.3 ac ar dudalen 35 o'r **Cod Ymarfer.**

Ar ôl cwblhau'r asesiad ariannol, rhaid i awdurdod lleol nodi'n ysgrifenedig faint sydd angen i chi ei dalu tuag at eich gofal a'ch cymorth.

Os bydd eich amgylchiadau ariannol yn newid, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol ailasesu eich gallu i dalu am eich gofal a'ch cymorth.

Os oes gennych anghenion gofal a chymorth, gallwch fel arfer wario'ch incwm a defnyddio'ch cynilion/cyfalaf fel y mynnwch, gan gynnwys rhoi rhoddion i ffrindiau a theulu. Fodd bynnag, ni ddylech geisio osgoi talu am ofal a chymorth yn fwriadol drwy **gael gwared ar eich cyfalaf neu eich incwm** (lleihau eich asedau yn fwriadol). Os bydd awdurdod lleol yn credu bod ganddo dystiolaeth sy'n dangos bod hyn wedi digwydd, ac os yw'n credu ei fod yn briodol, gall geisio adennill costau.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth am sut y mae'r system codi ffioedd yn gweithio ar gyfer gofal preswyl, Gofal Iechyd Parhaus y GIG, gofal nyrsio a ariennir gan y GIG a gofal amhreswyl.

# 2. Gofal preswyl

Ar gyfer gofal preswyl, bydd eich **cynilion/cyfalaf (e.e. eiddo) ac incwm (e.e. pensiynau)** fel arfer yn cael eu hystyried yn yr asesiad ariannol.

## Cyfalaf

Bydd yr awdurdod lleol yn edrych ar faint o gyfalaf sydd gennych. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r prif enghreifftiau o gyfalaf a gaiff ei ystyried yn cynnwys eiddo/tir, cyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu, cyfrifon Cynilion Cenedlaethol, Bondiau Premiwm, a stociau a chyfranddaliadau.

Mae tudalennau 27-30 o'r **Cod Ymarfer** yn nodi pa fathau o gyfalaf y dylid eu diystyru yn yr asesiad ariannol a hefyd sut y dylid trin bondiau buddsoddi.

Mae terfyn ariannol, sef y '**terfyn cyfalaf**', sy'n nodi pryd y byddwch yn gymwys i gael cymorth ariannol gan yr awdurdod lleol i ddiwallu eich anghenion asesedig.

Pennir y terfyn cyfalaf yn y **Rheoliadau Gosod Ffioedd** a gall y lefel hon newid o bryd i'w gilydd. Ar hyn o bryd, y terfyn cyfalaf yw **£50,000**.

- Os oes gennych gyfalaf sy'n **cyrraedd lefel y terfyn cyfalaf o £50,000 neu sy'n is na hynny**, rhaid ei ddiystyru o'r asesiad ariannol a bydd yr awdurdod lleol yn cyfrannu tuag at gost eich gofal. Efallai y bydd disgwyl i chi gyfrannu o hyd at eich costau gofal o'ch **incwm** (mae rhagor o wybodaeth am incwm isod).
- Os oes gennych **gyfalaf o dros £50,000**, mae'n debygol y bydd disgwyl i chi dalu costau llawn eich gofal preswyl.

Os disgwylir i chi dalu holl gostau eich gofal preswyl eich hun (h.y. os ydych chi'n unigolyn sy'n ariannu eich gofal eich hun), gallwch ofyn i'r awdurdod lleol am gyngor o hyd ac i drefnu eich gofal a'ch cymorth i chi.

Os bydd eich cyfalaf yn gostwng ac yn nesáu at y terfyn cyfalaf, dylai'r awdurdod lleol gynnal asesiad cyn gynted ag y bo'n gallu gwneud hynny'n rhesymol.

Pan fydd eich cyfalaf yn mynd is na'r terfyn o £50,000, dylech ddechrau cael cymorth ariannol gan yr awdurdod lleol ar gyfer eich ffioedd cartref gofal, a dim ond o'ch incwm y dylai fod angen i chi gyfrannu.

## Pan nad yw gwerth eiddo'n cael ei ystyried

Mae'r Cod Ymarfer yn nodi **na ddylai'r** asesiad ariannol ystyried gwerth eich eiddo os byddwch mewn gofal preswyl a bod y cartref yn dal i gael ei feddiannu'n rhannol neu'n gyfan gwbl fel prif gartref neu unig gartref unrhyw un o'r bobl a restrir isod:

1. eich partner, cyn bartner neu bartner sifil, ac eithrio pan fyddwch wedi gwahanu neu wedi ysgaru;
2. partner yr ydych chi wedi gwahanu neu wedi ysgaru oddi wrthynt, sy'n unig riant ac sydd â phlentyn dibynnol;
3. perthynas neu aelod o'ch teulu sydd: (1) yn 60 oed neu'n hŷn, neu (2) yn blentyn i'r preswylydd o dan 18 oed, neu (3) wedi'i analluogi. Mae diffiniadau o'r termau 'perthynas' a 'teulu' i'w gweld ar dudalennau 31-32 o'r **Cod Ymarfer.**.

Dim ond pan fo'r eiddo wedi'i feddiannu'n barhaus ers cyn i chi fynd i gartref gofal y mae'r uchod yn berthnasol.

Mae yna hefyd sefyllfaoedd pan fo'n rhaid anwybyddu gwerth eich prif gartref neu eich unig gartref mewn asesiad ariannol os ydych yn cael gofal a chymorth dros dro mewn cartref gofal.

Rhaid anwybyddu gwerth eich prif gartref neu eich unig gartref am y 12 wythnos gyntaf pan fydd gwerth unrhyw gyfalaf arall sydd gennych yn llai na'r terfyn cyfalaf. Mae'r **Cod Ymarfer** yn rhoi rhagor o fanylion am hyn ac mae hefyd yn nodi amgylchiadau penodol eraill pan ddylid anwybyddu asedau cyfalaf am gyfnod penodol o amser.

## Incwm

Yn ystod yr asesiad ariannol, rhaid i awdurdod lleol ystyried eich **incwm** sy'n gallu cynnwys pensiynau, blwydd-dal a bondiau buddsoddi a rhai budd-daliadau lles. Fodd bynnag, **rhaid anwybyddu enillion o gyflogaeth** wrth gyfrifo faint y gallwch ei dalu.

Mae Atodiad B o'r **Cod Ymarfer** yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ba incwm a gaiff ei ystyried a'r hyn a gaiff ei anwybyddu yn ystod asesiad ariannol.

## Isafswm Incwm

Os ydych mewn gofal preswyl a bod eich cyfalaf yn cyrraedd lefel y terfyn cyfalaf neu'n is na hynny, byddwch yn cyfrannu'r rhan fwyaf o'ch incwm (ac eithrio enillion) tuag at gost eich gofal a'ch cymorth. Fodd bynnag, rhaid i awdurdod lleol

sicrhau bod gennych swm penodol o'ch incwm eich hun i'w wario ar eitemau personol fel dillad. Gelwir hyn yn '**isafswm incwm**'. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw incwm a gewch o enillion.

Yr **isafswm incwm** ar hyn o bryd yw **£43.90 yr wythnos**.

## Ffioedd ychwanegol

Os penderfynwyd, yn dilyn y broses asesu, mai cartref gofal fydd yn diwallu eich anghenion orau, bydd gennych hawl i wneud dewis o ran llety (yn amodol ar rai amodau).

Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol gynnig mwy nag un dewis o lety am y swm safonol y mae fel arfer yn ei dalu am ofal preswyl. Os na fydd llety addas ar gael sy'n diwallu eich anghenion asesedig o fewn y swm safonol, rhaid i'r awdurdod lleol drefnu cartref gofal drutach sy'n addas ac addasu ei gyfraniad i'r cyllid. Yn y sefyllfa hon, ni chaniateir i'r awdurdod lleol ofyn i chi na thrydydd parti dalu'r gost ychwanegol.

Weithiau, bydd rhywun yn dewis cartref gofal sy'n costio mwy nag y byddai'r awdurdod lleol fel arfer yn ei dalu i berson â'i anghenion asesedig yntau. Os byddwch yn y sefyllfa honno, dylai'r awdurdod lleol wneud trefniadau i chi symud i'ch cartref gofal dewisol, ond dim ond os gall rhywun arall, neu chi o dan rai amgylchiadau, wneud iawn am y gwahaniaeth rhwng yr hyn y byddai'r awdurdod lleol fel arfer yn ei dalu a ffioedd y cartref gofal. Gelwir y cyfraniad trydydd parti hwn yn 'ffioedd ychwanegol'.

Bydd angen talu ffioedd ychwanegol ar hyd yr amser y byddwch yn y cartref gofal ac os na fyddwch chi'n talu'r gost ychwanegol, efallai y bydd angen i chi symud i gartref gofal arall.

## Taliadau gohiriedig

Fel rhan o gytundeb taliadau gohiriedig, os cafodd eich eiddo ei ystyried yn yr asesiad ariannol, gallwch ohirio neu oedi talu eich holl gostau gofal neu rai ohonynt tan ddyddiad diweddarach fel nad oes angen i chi werthu eich eiddo cyn gynted ag i chi symud i gartref gofal. Rhaid i awdurdodau lleol gynnig cytundeb taliadau gohiriedig i bobl sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd penodol. Mae rhagor o fanylion am gytundebau taliadau gohiriedig, gan gynnwys cymhwystra yn Atodiad D i'r **Cod Ymarfer.**

# 3. Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Gofal Iechyd Parhaus y GIG yw'r enw a roddir ar wasanaethau a drefnir ac a ariennir gan y GIG yn unig, ar gyfer pobl y mae eu hasesiad wedi dangos bod eu prif angen o ran gofal yn ymwneud ag iechyd hytrach na gofal cymdeithasol. Daw'r wybodaeth isod o'r **wybodaeth am Ofal Iechyd Parhaus y GIG** a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Os yw'n ymddangos y gallai fod angen Gofal Iechyd Parhaus y GIG arnoch, disgwylir i fyrddau iechyd gymryd camau rhesymol i sicrhau eu bod yn cynnal yr asesiad perthnasol.

Ni fydd eich cymhwystra i gael Gofal Parhaus y GIG yn dibynnu ar eich cyflwr, eich clefyd neu eich diagnosis penodol nac ar bwy sy'n darparu'r gofal ac ymhle y caiff ei ddarparu. Gellir darparu Gofal Iechyd Parhaus y GIG mewn unrhyw leoliad, gan gynnwys eich cartref neu mewn cartref gofal.

Os darperir Gofal Parhaus y GIG i chi pan fyddwch yn byw mewn cartref gofal, bydd y GIG yn talu cost lawn ffioedd y cartref gofal. Bydd y GIG yn gwneud contract â'r cartref gofal i dalu'r ffioedd perthnasol. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, cartref nyrsio fydd hwn (cartref gofal sy'n darparu gofal nyrsio).

Er mwyn penderfynu a oes angen iechyd sylfaenol, byddwch yn cael eich asesu drwy edrych ar eich holl anghenion gan ystyried pedwar maes allweddol:

1. **Natur –** mae hyn yn disgrifio anghenion person a'r math o anghenion e.e. iechyd corfforol, iechyd meddwl neu seicolegol. Mae hefyd yn disgrifio sut y mae anghenion y person yn effeithio arnynt a'r math o gymorth sydd ei angen i reoli eu hanghenion.
2. **Dwysedd –** mae hyn yn disgrifio un neu fwy o anghenion a all fod mor ddifrifol y mae angen rhywfaint o ofal parhaus arnynt.
3. **Cymhlethdod –** mae hyn yn disgrifio sut y mae symptomau'n rhyngweithio, gan ei gwneud yn anodd eu rheoli, a chan olygu bod angen sgiliau i fonitro'r symptomau, trin y cyflwr a/neu reoli'r gofal.
4. **Natur anrhagweladwy –** mae hyn yn disgrifio i ba raddau y mae anghenion rhywun yn amrywio a pha mor anodd ydyw i reoli'r anghenion hynny. Mae hefyd yn disgrifio lefel y risg i iechyd unigolyn os nad yw'r gofal cywir yn cael ei ddarparu'n gyflym.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG** yn 2022. Mae hwn yn nodi'r broses y mae'n rhaid i'r GIG ac awdurdodau lleol ei dilyn wrth benderfynu a ydych yn gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

# 4. Gofal nyrsio a ariennir gan y GIG

Os bydd eich asesiad yn pennu nad ydych yn gymwys i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG wedi'i ariannu'n llawn, efallai y byddwch yn gymwys i gael **gofal nyrsio a ariennir gan y GIG**, os oes angen rhai gwasanaethau arnoch gan nyrs gofrestredig. Penderfynir ar hyn fel rhan o'r broses asesu ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

Mae cartrefi nyrsio yn cyflogi nyrsys cofrestredig i ddarparu gofal nyrsio i'r rheini sydd ei angen. Mae'r GIG yn gwneud taliad uniongyrchol i'r cartref gofal i ariannu'r gofal nyrsio hwn.

Dim ond y gost o ddarparu eich gofal nyrsio cofrestredig y mae'r cyfraniad gofal nyrsio a ariennir gan y GIG yn talu amdani ac nid eich gofal personol cyffredinol. Dim ond rhywfaint o gyfanswm y ffioedd cartref gofal y bydd y cyfraniad gofal nyrsio a ariennir gan y GIG yn talu amdanynt, a bydd angen i chi dalu'r ffioedd sy'n weddill eich hun neu gyda chymorth yr awdurdod lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **taflen wybodaeth i'r cyhoedd** sy'n rhoi gwybodaeth am pryd y dylech gael gofal nyrsio a ariennir gan y GIG a pha agweddau ar ofal y gall nyrs gofrestredig ymdrin â hwy.

# 5. Gofal amhreswyl

Efallai y bydd yr asesiad o anghenion yn pennu y gallwch aros yn eich cartref eich hun lle darperir gwasanaethau gofal cymdeithasol i'ch cefnogi. Cyfeirir at hyn fel gwasanaethau gofal cymdeithasol amhreswyl neu ofal cartref fel arfer.

Bydd yr asesiad ariannol ar gyfer gofal amhreswyl fel arfer yn ystyried eich **cynilion/cyfalaf ac incwm** a bydd yn penderfynu a ddylech dalu'r swm llawn ar gyfer eich gofal a'ch cymorth, neu swm llai.

## Uchafswm ffi

Os ydych yn cael gofal a chymorth gartref, rhaid i awdurdodau lleol beidio â chodi mwy na'r uchafswm ffi wythnosol arnoch am yr holl wasanaethau a gewch. Ar hyn o bryd, yr uchafswm ffi wythnosol yw **£100 yr wythnos** ac fe'i pennir yn y **Rheoliadau Gosod Ffioedd.** Gall y swm hwn newid o bryd i'w gilydd.

## Cyfalaf

Yn debyg i ofal preswyl, bydd yr asesiad ariannol yn edrych ar faint o gyfalaf sydd gennych. Mae tudalennau 27-30 o'r **Cod Ymarfer** yn nodi pa fathau o gyfalaf y dylid eu diystyru yn yr asesiad ariannol a hefyd sut y dylid trin bondiau buddsoddi.

Pennir y **terfyn cyfalaf** ar gyfer gofal a chymorth amhreswyl yn y **Rheoliadau Gosod Ffioedd**, ac ar hyn o bryd, y terfyn yw **£24,000** (heb gynnwys gwerth eich cartref). Gall y swm hwn newid o bryd i'w gilydd.

Os ydych yn cael gofal a chymorth amhreswyl gartref neu yn y gymuned, **rhaid diystyru gwerth eich prif gartref neu eich unig gartref** wrth ystyried cyfalaf mewn asesiad ariannol.

- Os oes gennych gyfalaf sy'n **cyrraedd lefel y terfyn cyfalaf o £24,000 neu sy'n is na hynny**, dylai'r awdurdod lleol ei ddiystyru'n llawn yn yr asesiad ariannol ac wrth benderfynu faint y bydd yn rhaid i chi ei gyfrannu tuag at eich gwasanaethau gofal. Dim ond ar eich incwm y bydd yr awdurdod yn edrych.
- Os oes gennych gyfalaf sy'n **uwch na'r terfyn cyfalaf o £24,000**, gall yr awdurdod lleol godi'r uchafswm ar gyfer y gwasanaethau y mae'n eu darparu.

Os oes gennych gyfalaf sy'n uwch na'r terfyn cyfalaf, gallwch ofyn i'ch awdurdod lleol drefnu eich gofal a'ch cymorth i chi. Fodd bynnag, gofynnir i chi dalu'r gost lawn hyd at yr uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl, nes bod gwerth eich cyfalaf yn cyrraedd lefel y terfyn cyfalaf neu'n is na hynny.

## Incwm

Bydd yr asesiad ariannol hefyd yn ystyried eich **incwm**. Fodd bynnag, **rhaid anwybyddu enillion o gyflogaeth** wrth gyfrifo faint y gallwch ei dalu.

Mae Atodiad B o'r **Cod Ymarfer** yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ba incwm a gaiff ei ystyried a'r hyn a gaiff ei anwybyddu yn ystod asesiad ariannol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am fudd-daliadau lles, blwydd-dal, pensiynau a bondiau buddsoddi.

## Isafswm Incwm

Os ydych yn cael gofal a chymorth gartref, bydd angen digon o arian arnoch i dalu am gostau byw fel rhent, bwyd a chyfleustodau. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau nad yw eich incwm yn disgyn yn is na swm a nodir ar ôl i daliadau gael eu didynnu ar gyfer gofal a chymorth amhreswyl.

Cyfeirir at hyn fel yr '**isafswm incwm**' a rhaid iddo fod yn gyfwerth o leiaf â gwerth eich 'hawl sylfaenol' i fudd-dal lles perthnasol ynghyd ag isafswm 'glustogi', sef 35 y cant o'r swm hwnnw. Rhaid i'r isafswm incwm hwn hefyd gynnwys o leiaf 10 y cant arall o "hawlogaeth sylfaenol" person i fudd-dal lles perthnasol er mwyn caniatáu ar gyfer gwariant cysylltiedig ag anabledd. Mae rhagor o fanylion ar dudalen 45 o'r **Cod Ymarfer.**

# 6. Adolygu penderfyniadau'r asesiad

Gallwch ofyn am adolygiad o ffi a godir gan awdurdod lleol os byddwch chi'n credu ei bod yn anghywir. Mae Atodiad E o'r **Cod Ymarfer** yn cynnwys gwybodaeth am y broses i'w dilyn o dan yr amgylchiadau hyn.

# 7. Ffynonellau eraill o gymorth a chefnogaeth:

- **Canllaw ar gyfer etholwyr gan Ymchwil y Senedd: Cael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth (gofal cymdeithasol i oedolion),** Gorffennaf 2021.
- **Cyngor gan Age Cymru** – "y gwasanaeth gwybodaeth a chyngor mwyaf blaenllaw i bobl hŷn yng Nghymru". Mae canllawiau a thaflenni gwybodaeth manwl ar gael ar y wefan: **Cyngor ¦ Age Cymru (ageuk.org.uk).** Llinell gyngor: 0300 303 44 98. E-bost: advice@agecymru.org.uk
- **Sefydliadau lleol Age Cymru** – mae pum sefydliad rhanbarthol ledled Cymru sy'n darparu cyngor a chefnogaeth ar ystod o faterion, yn ogystal â gwasanaethau uniongyrchol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.ageconnectswales.org.uk/services.**
- **Sefydliadau lleol Age Connects** – mae gan Age Connects chwe sefydliad lleol annibynnol ledled Cymru. Mae sefydliadau lleol Age Connects yn darparu gwasanaethau, gan gynnwys gwybodaeth, cyngor a budd-daliadau lles, cyfeillio, rhaglenni eiriolaeth a gweithgareddau annibynnol. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.ageconnectswales.org.uk/services.**
- **Mencap Cymru** – mae "llais anabledd dysgu yng Nghymru" yn darparu canllawiau gwybodaeth a chyngor ar wefan y sefydliad: **https://wales.mencap.org.uk/cy/gwybodaeth-chefnogaeth.** Gellir cael gwasanaethau hefyd drwy ffonio llinell gymorth anabledd dysgu Cymru: 0808 8000 300.
- **Cyngor ar Bopeth** – mae rhwydwaith cenedlaethol o ganolfannau cyngor lleol ledled Cymru sy'n cynnig cyngor cyfrinachol, annibynnol yn rhad ac am ddim. Gwefan: **https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/**
- **Cymdeithas Alzheimer Cymru** – elusen dementia sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor ar ei gwefan: **Cymdeithas Alzheimer Cymru (Cymru),** a'r llinell gymorth cyswllt dementia genedlaethol: 0333 150 3456.
- **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** – hyrwyddwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Ffôn: 03442 640670. E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com. Gwefan: **https://www.olderpeoplewales.com/cy/Home.aspx.**

- **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** – mae gan yr Ombwdsmon annibynnol bwerau cyfreithiol i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru. Ffôn: 0300 790 0203. E-bost: Holwch@ombwdsmon.cymru. Gwefan: **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.**
- Llywodraeth Cymru **gwybodaeth gryno am Ofal Iechyd Parhaus y GIG.**